

Eluned Morgan AS  
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

7 Mai 2020

Annwyl Eluned

### Y Bil Masnach: Cydsyniad deddfwriaethol

Ar 17 Ebrill 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â Bil Masnach y DU ('y Bil') at ein pwyllgorau ni i graffu arno.

Byddwch yn ymwybodol o'r adroddiadau blaenorol y mae ein pwyllgorau wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â fersiwn y Bil Masnach a gyflwynwyd i Senedd y DU 2017-19.



Gan adeiladu ar ein gwaith blaenorol, ac o ystyried nifer o feysydd o ddiddordeb cyffredin yn y Bil, cytunodd ein pwyllgorau i ofyn nifer o gwestiynau ar y cyd i chi, er mai ein bwriad yw adrodd ar wahân.

Amgaeir ein cwestiynau gyda'r llythyr hwn, a diolchwn ichi ymlaen llaw am eu hystyried.



Byddem yn ddiolchgar am ymateb erbyn dydd Gwener 22 Mai 2020, er mwyn caniatáu inni ystyried eich ymateb yn ein cyfarfodydd yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin.




**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [Cysylltu@senedd.cymru](mailto:Cysylltu@senedd.cymru)  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [Contact@senedd.wales](mailto:Contact@senedd.wales)  
 0300 200 6565

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a clear, legible font.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a clear, legible font.

Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Cwestiynau

## Cymal 1 (yn ymwneud â Chytundeb Caffael y Llywodraeth ('y GPA'))

1. Mae paragraff 27(e) o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil Masnach ('y Bil') yn nodi:

The UK anticipates that GPA parties will expect the UK to commit to commence the process for updating the list of central government entities in its Annex 1 shortly after acceding to the GPA as an independent party.

2. Mae Cymal 1(1) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion y DU a Chymru i wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu'r GPA fel y gwelant yn "briodol". Yn flaenorol, mynegodd ein pwyllgorau bryder ynghylch ehangder y pŵer hwn, a chytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, y dylid cyfyngu'r pŵer i gael ei ddefnyddio pan oedd yn cael ei ystyried yn 'angenrheidiol'.
3. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau y cynigir eu dirprwyo i Weinidogion Cymru, o dan Gymal 1(1)(b)(iv), i ddiweddarau'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Anecs 1 i Atodiad I y Deyrnas Unedig i'r GPA, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
4. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil yn cadarnhau bod yr holl reoliadau a wneir gan Weinidog y Goron neu Weinidogion Cymru sy'n gweithredu naill ai ar y cyd neu ar eu pen eu hunain o dan Gymal 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (gweler paragraff 6 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol).
5. Mae paragraffau 21, 31, 40, 50 a 58 o'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig a luniwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol i gyd-fynd â'r Bil yn cyfeirio at yr angen i wneud rheoliadau yn "gyflym" wrth gyfiawnhau'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau yng Nghymal 1.

### Cwestiwn 1

---

Pa gyrff cyhoeddus o Gymru y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cynnwys mewn unrhyw restr ddiwygiedig yn Anecs 1 i Atodiad I y Deyrnas Unedig i'r GPA?



## Cwestiwn 2

---

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ehangder y pŵer i wneud rheoliadau yng Nghymal 1, yn benodol o ran gallu Gweinidogion y DU a Chymru i wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu'r GPA fel y gwelant yn "briodol"?

## Cwestiwn 3

---

O ystyried y ffaith ei bod yn ymddangos bod angen adolygu'r rhestr o gyrff cyhoeddus Cymru, a'r cyfeiriad at yr angen am ddiweddariad yn y Nodiadau Esboniadol, pam ydych chi'n ystyried mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer gwneud y rheoliadau hyn?

## Cwestiwn 4

---

Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi bod angen gwneud rheoliadau Cymal 1 yn gyflym, p'un a yw hynny, er enghraifft, mewn ymateb i fynediad y DU i'r GPA fel aelod annibynnol neu mewn ymateb i anghydfod â pharti GPA arall. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn awgrymu bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn rhoi cyfle i Weinidogion y DU a Chymru weithredu mor gyflym â hynny. Pa ystyriaeth a roddwyd i gymhwyso'r weithdrefn gwneud cadarnhaol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng Nghymal 1?

## Disgwyl ymrwymadau gan Weinidogion y DU

Mae paragraff 10 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi:

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ailddatgan ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, sy'n cynnwys:

- Na fydd Llywodraeth y DU fel rheol yn defnyddio pwerau cydredol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad y Llywodraethau Datganoledig, ac ni fydd byth yn defnyddio'r pwerau hynny heb ymgynghori â nhw.
- Na fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau i gyflwyno polisiau newydd mewn meysydd datganoledig ac mai effeithlonrwydd gweinyddol fydd y prif ysgogydd.
- Ymgysylltu â Llywodraethau Datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau Cymal 2 o dan y Bil.



## Cwestiwn 5

---

A allwch chi egluro ar ba sail y gwnaed y cytundeb i ailddatgan yr ymrwymadau hyn? Er enghraifft, a gadarnhawyd hyn mewn llythyrau rhwng Gweinidogion neu ai ymrwymiad llafar ydoedd?

## Cwestiwn 6

---

Pa gamau y byddwch yn eu cymryd pe na bai'r ymrwymadau hyn yn cael eu hailddatgan?

## Cwestiwn 7

---

Mae'r Bil yn creu pwerau cydredol newydd y gellir eu harfer mewn meysydd datganoledig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau â Llywodraeth y DU am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, yn benodol y prawf a nodir ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006?

## Ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau Cymal 2

6. Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi mynegi barn yn flaenorol y dylai unrhyw estyniad i'r darpariaethau machlud sy'n ymwneud â Chymal 2 fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Senedd Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru.
7. Pum mlynedd yw hyd y ddarpariaeth machlud yn y Bil. Yn fersiwn flaenorol y Bil, pum mlynedd ar ôl ei gyflwyno oedd hyn, ond cafodd ei ostwng i dair blynedd yn dilyn gwelliannau.

## Cwestiwn 8

---

A allwch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon â chyfnod o bum mlynedd y gellir defnyddio'r pwerau hyn?

## Cwestiwn 9

---

Er ein bod yn nodi eich bod yn ceisio ymrwymiad gan Weinidogion y DU i ymgysylltu â Llywodraethau Datganoledig cyn estyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau Cymal 2 o dan y Bil, beth yw eich barn ar yr awgrym y dylai unrhyw estyniad i'r cyfnod o bum mlynedd



hefyd fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Senedd Cymru, i'r graddau y mae hyn yn ymwneud â phwerau wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru?

## Pwerau Cymal 2 i addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n gyfraith yr UE a ddargedwir

- 8.** Gallai rheoliadau a wnaed gan Weinidogion y DU o dan Gymal 2(6)(a) ddiwygio darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) sydd wedi'u diffinio, o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel cyfraith yr UE a ddargedwir.
- 9.** Mae ein pwyllgorau wedi mynegi pryder yn flaenorol y dylid caniatáu diwygio Deddf 2006 yn y modd hwn, a daethant i'r casgliad y dylid diwygio Atodlenni 7A a 7B i Ddeddf 2006 trwy'r weithdrefn briodol a nodir yn adran 109 o'r Ddeddf honno.
- 10.** Ym mis Hydref 2017, nododd Robin Walker AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE, wrth drafod Gweinidogion y DU yn defnyddio pwerau i wneud rheoliadau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, roedd Llywodraeth y DU yn glir, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, y byddai'n defnyddio'r pwerau presennol yn Neddf 2006 i gywiro unrhyw ddiffygion yn y Ddeddf honno, er enghraifft, a byddai'n gwneud hynny mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r sicrwydd hwnnw'n rhwymol gyfreithiol.

### Cwestiwn 10

---

Beth yw eich barn am y pŵer yng Nghymal 2(6)(a) sy'n galluogi Gweinidogion y DU i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 trwy reoliadau? Pam ydych chi'n ystyried bod hwn yn bŵer priodol? A ydych wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y pŵer hwn?

